# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD LLUN, 9 MAI 2016 AM 4.30PM

**YN BRESENNOL:** M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| U C Clay | A C S Colburn | S E Crouch |
| N J Davies | E W Fitzgerald | T J Hennegan |
| J W Jones | P M Meara | G Owens |
| G J Tanner | | |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | F M Gordon | C A Holley |
| P R Hood-Williams | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |

178 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cynghorwyr D W Cole a D J Lewis.

179 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

Y Cynghorydd N J Davies – Cofnod 183 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant - Buddiant Personol – wedi'i gyflogi gan Graham Evans & Partners LLP sy'n cynnal hawliau atebolrwydd cyhoeddus yn erbyn yr awdurdod.

180 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

181 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016 yn gofnod cywir.

Mewn perthynas â Chofnod 166, gofynnodd aelodau am eglurhad o'r datganiad a wnaed gan Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio am gynnwys gwasanaethau llyfrgell, ynghyd â gwasanaethau diwylliannol eraill, yn yr 'Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol' er mwyn ceisio diddordeb partïon allanol. Cytunwyd y dylai llythyr y pwyllgor at aelod y cabinet ofyn iddo ddarparu mwy o wybodaeth am hyn, gan adlewyrchu'r sesiwn holi ac ateb.

182 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

183 **SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS YR AMGYLCHEDD A CHLUDIANT. (Y CYNGHORYDD DAVID HOPKINS).**

Rhoddodd y Cynghorydd Hopkins sylwadau agoriadol o blaid ei adroddiad ysgrifenedig, cyn derbyn cwestiynau gan y pwyllgor.

Roedd Stuart Davies, Pennaeth Priffyrdd a Chludiant, a Chris Howell, Pennaeth Rheoli Gwastraff a Pharciau, hefyd yn bresennol ac fe wnaethant gynorthwyo'r pwyllgor gyda'r cwestiynau yn ôl y gofyn.

Arweiniodd y sesiwn holi i drafodaeth ynghylch y pynciau canlynol:

- Statws yr adolygiadau comisiynu perthnasol (e.e. Rheoli Gwastraff, Parciau a Glanhau, Priffyrdd a Chludiant)
- Perfformiad ailgylchu/pecynnu gormodol/sbwriel
- Ôl-groniad o atgyweiriadau ffyrdd (e.e. tyllau ffordd), archwilio a blaenoriaethu
- Gorfodi parcio sifil/costau i ddarparu gwasanaethau parcio
- Incwm Marina Abertawe/cynnal a chadw Morglawdd Tawe
- Cynnydd ar ddatblygu Partneriaeth Ansawdd Bysus gyda First Cymru
- Rheoli'r cerbydlu a rhesymoli depos
- Ffïoedd i gau strydoedd (e.e. dathliadau cenedlaethol/partïon stryd)
- Baw cŵn a gorfodi/darpariaeth a chostau biniau gwastraff cŵn
- Amserlenni glanhau strydoedd a thargedu
- Rhaglen Llwybrau Diogel i'r Ysgol/Terfynau 20 mya o gwmpas ysgolion
- Torri glaswellt mewn parciau/cynnal a chadw e.e. lle caiff hyn ei reoli gan grwpiau 'ffrindiau parciau'
- Cost gwaith ynglŷn â lwfansau amgylcheddol cynghorwyr (e.e. pyst pren i atal parcio a diogelu ymylon ffyrdd glaswelltog)
- Effeithiolrwydd goleuadau stryd LED
- Cludiant o'r cartref i'r ysgol

Diolchwyd i'r Cynghorydd Hopkins a'r swyddogion gan y cadeirydd am ddod.

**PENDERFYNWYD** y dylai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at aelod y cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

184 **ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU - BWRDD GWASANAETHAU LLEOL. (Y CYNGHORYDD MARY JONES).**

Rhoddodd y Cynghorydd Mary Jones, Cynullydd, ddiweddariad am waith Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yn sgîl y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, nododd fod gwaith y panel perfformiad wedi cwblhau ei waith erbyn hyn ac y byddai Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y corff newydd, yn cwrdd o fis Mehefin 2016.

Cyfeiriodd at brif casgliadau'r panel sydd wedi cael eu cyfleu i gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd y Cyngor). Disgwylir i lythyr y panel gael ei ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd pan fydd yn cwrdd am y tro cyntaf ar 17 Mai, a gobaith yr aelodau oedd y byddai'r bwrdd newydd yn derbyn barn ac argymhellion y panel.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei **NODI.**

185 **ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH BLYNYDDOL 2015/16.**

Fel cyfarfod olaf y flwyddyn ddinesig bresennol, bu'r adroddiad yn cynorthwyo'r cynghorwyr i ystyried y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddinesig a myfyrio ar y profiad. Cafodd y pwyllgor ei annog hefyd i ddechrau meddwl am y rhaglen waith craffu ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r pwyllgor:

- Crynodeb o waith y pwyllgor a'r rhaglen waith craffu gyffredinol (gan gynnwys cynnydd y paneli a'r gweithgorau amrywiol).
- Adborth am berfformiad craffu a'r arolwg cynghorwyr blynyddol.
- Crynodeb o weithgareddau gwella a wnaed.
- Rhestr o waith rhagorol y gellir ei gario drosodd.
- Blaengynllun y Cabinet ar gyfer cyfleoedd am graffu cyn penderfynu.

Gwahoddwyd yr aelodau i roi eu barn am y rhaglen waith a'u profiad o graffu er mwyn helpu i werthuso pa mor llwyddiannus mae pethau wedi bod a nodi meysydd i'w gwella. Ystyriodd y pwyllgor yr wybodaeth a ddarparwyd a chodwyd y materion canlynol yn ystod trafodaethau:

- Trawsnewid Panel y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion – Cyfeiriodd cynullydd y panel, y cynghorydd Uta Clay, at waith y panel dros y 18 mis diwethaf a'i lythyr cloi at Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn a gaiff ei gyflwyno i'r pwyllgor.
- Y Cynghorydd Cyfranogi wrth Graffu – Teimlodd y pwyllgor y dylai mwy o gynghorwyr gymryd rhan wrth graffu. Nodwyd mai canran y cynghorwyr mainc gefn a fu'n cymryd rhan dros y flwyddyn ddiwethaf oedd 79% (49 o 62).
- Craffu cyn penderfynu – Rhannodd aelodau'r pwyllgor brofiadau o graffu cyn penderfynu a mynegwyd peth pryder ynglŷn ag effeithiolrwydd y broses gyfredol. Roedd pryderon penodol yn ymwneud â'r amserlenni a ddarperir ar gyfer craffu a

sut mae'r Cabinet yn ymateb i farn pobl. Nodwyd y gwaith craffu cyn penderfynu diweddar o'r Gwasanaeth Cerdd i Ysgolion fel enghraifft. Gofynnodd rhai aelodau am eglurhad o ddiben craffu cyn penderfynu a'r disgwyliadau ar gyfer y Cabinet mewn ymateb i bryderon/argymhellion craffu cyn penderfynu. Teimlwyd y gallai gohirio penderfyniad y Cabinet fod yn briodol er mwyn ystyried barn y tîm craffu'n llawn.

Nododd y pwyllgor ragor o wybodaeth am adroddiad disgwyliedig y Cabinet am ‘Sgwâr y Castell – Datblygu a Chyfleoedd ar gyfer Mannau Cyhoeddus’ ac fe ystyriwyd a ddylid cyflwyno cais am graffu cyn penderfynu. Bu peth pryder ynglŷn â'r cynnig i farchnata'r safle fel man cyhoeddus pwysig, mewn ymateb i ddiddordeb gan ddatblygwyr.

Cafodd aelodau'r pwyllgor eu hatgoffa gan y cadeirydd am y gynhadledd cynllunio gwaith craffu flynyddol a oedd i'w chynnal ar 12 Mai. Nododd hi fod cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac aelodau cyffredin y Pwyllgor Safonau wedi cael eu gwahodd i'r gynhadledd hefyd i roi safbwynt annibynnol/cyhoeddus ar waith yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) cymeradwyo cylch gorchwyl yr Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi;
2) gofyn am graffu cyn penderfynu ar gyfer adroddiad disgwyliedig y Cabinet ar ‘Sgwâr y Castell – Datblygu a Chyfleoedd ar gyfer Mannau Cyhoeddus’ (a nodwyd ym mlaengynllun y Cabinet ar gyfer 16 Mehefin) – dylid trefnu cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu cyn gynted â phosib; a
3) threfnu cyfarfod rhwng cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ac aelod perthnasol y cabinet i drafod y broses graffu cyn penderfynu a gwelliannau posib.

## 186 AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.

Adroddwyd am fynegiadau o ddiddordeb ymhlith cynghorwyr craffu ar gyfer corff newydd Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion er mwyn cytuno arnynt. Adroddwyd bod y Cynghorydd Peter Black a'r Cynghorydd Uta Clay wedi mynegi diddordeb mewn gweithredu fel cynullydd.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Dylid cytuno ar aelodaeth Panel Perfformiad Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel a ganlyn:

**Cynghorwyr Llafur: 6**

| | |
|---|---|
| Uta Clay | Geraint Owens |
| Ann Cook | Paulette Smith |
| Yvonne Jardine | Gloria Tanner |

**Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol: 3**

| | |
|---|---|
| Peter Black | Jeff Jones |
| Chris Holley | |

**Cynghorydd Annibynnol: 1**

| | |
|---|---|
| Susan Jones | |

**Cynghorydd y Ceidwadwyr: 1**

| | |
|---|---|
| Paxton Hood-Williams | |

2) Bydd y panel yn dewis y cynullydd yn ei gyfarfod cyntaf, i'r pwyllgor gytuno arno.

## 187 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y cadeirydd am y log llythyrau craffu a chyfeiriodd at yr ohebiaeth ddiweddar rhwng aelodau'r Tîm Craffu ac aelodau'r Cabinet. Roedd hyn yn cynnwys llythyr cloi Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r ymateb.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** log llythyrau'r Tîm Craffu.

## 188 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Roedd yn bleser gan y cadeirydd i gyfeirio at roi Tîm Craffu Abertawe ar y rhestr fer ar gyfer y Wobr Cyflawniad Cyfnodolyn Dinesig cenedlaethol yn y categori 'Rhagoriaeth mewn Llywodraethu a Chraffu'. Myfyriodd ar y 'diwrnod dyfarnu' yn Llundain pan aeth hi a'r Cynghorydd Clive Lloyd (Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad) a Dave Mckenna (Rheolwr Craffu) i'r seremoni ar 28 Ebrill. Roedd hi'n fodlon ar y cyflwyniad a roddwyd i'r beirniaid a oedd, yn ei thyb hi, wedi cael ei dderbyn yn dda, a hefyd ar y profiad. Nododd y byddai'r Seremoni Wobrwyo'n cael ei chynnal ar 16 Mehefin y byddai hi, y Cynghorydd Terry Hennegan a'r Cynghorydd Paxton Hood-Williams yn mynd iddi.

## 189 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Adroddodd y cadeirydd am y Gynhadledd Cynllunio Gwaith Craffu Flynyddol sydd i'w chynnal ar 12 Mai 2016, 4.00 pm, Ystafell Dderbyn yr Arglwydd Faer, Neuadd y Ddinas.

## 190 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH).

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 191 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm

**CADEIRYDD**